VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Derbyn i Ysgolion**

**Ysgol Stanwell**

**25 Mehefin 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bob Penrose, Lisa Lewis, Jane Werrett, Ann Robertson, Clare Kynaston, Mike Matthews
**YMDDIHEURIADAU:** Vince Browne, Norman Craggs, Ceri Thomas.

| EITEM | MATER | CAMAU I'W CYMRYD | Aelod |
|---|---|---|---|
| 2 | Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol | Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir. | |
| 3 | Materion yn codi | Dywedodd LL fod yr adroddiad blynyddol wedi'i ddiwygio ac wedi'i anfon at LlC cyn y dyddiad dyledus. Ni dderbyniwyd ceisiadau pellach am wybodaeth.<br><br>Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer is-gadeirydd y fforwm. Cafodd LL ei henwebu a'i hethol i'r swydd. | |
| 4 | Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth | Dosbarthwyd cylch gorchwyl y grŵp er gwybodaeth. Mae Andrew Ricketts wedi cael ei enwebu i gymryd lle Edwin Counsell ac mae Fiona Gravelle wedi cael ei henwebu i gymryd lle Vince Browne. Derbyniwyd y ddau enwebiad yn unfrydol. Bydd y Cadeirydd yn chwilio am aelod craffu newydd yn lle Tony Hampton. Bydd CK yn trafod y posibilrwydd y bydd Pennaeth newydd Stanwell yn ymuno â'r fforwm i gymryd lle Derek Jones ac yn rhoi gwybod i MM. | BP / MM |
| 5 | Diweddariad ar y cylch derbyn blynyddol ac apeliadau | Gan fod SM yn mynychu cyfarfodydd apeliadau heddiw, rhoddodd MM y wybodaeth ddiweddaraf i'r fforwm am y sefyllfa bresennol. Mae nifer yr apeliadau ar ei uchaf erioed ac mae nifer o ysgolion wedi'u gordanysgrifio. Mae 201 o leoedd derbyn ar gael ar draws y cyngor. Nid yw'r heriau ym Mhenarth a'r Bont-faen wedi newid a thrafodwyd yr angen i edrych o'r newydd ar y trefniadau derbyn. Dywedodd LL y bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Dywedodd MM fod prosiect Coed wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran derbyniadau ac mae'r ddwy ysgol yn perfformio'n dda. | |
| 6 | Symudiad Wedi'i Reoli | Yn absenoldeb SM rhoddodd MM y wybodaeth ddiweddaraf i'r fforwm am berfformiad trosglwyddiadau cyffredinol. Bu 975 o | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | drosglwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd ac eithrio yn yr ardaloedd hynny y tu hwnt i reolaeth y tîm derbyn (symudiadau wedi'u rheoli, symudiadau teuluol ac ati), roedd perfformiad, unwaith eto ar 100% yn erbyn y targed o brosesu ceisiadau o fewn deg diwrnod ysgol. Nododd LL fod y ceisiadau, yn y mwyafrif o achosion, yn cael eu prosesu ymhell cyn pen deng niwrnod a llongyfarchodd y tîm ar eu hymdrechion yn y maes hwn sydd o fudd sylweddol i ddisgyblion drwy sicrhau'r oedi lleiaf posibl cyn dechrau'r ysgol. | |
| 7 | Canllaw Rhieni ar Dderbyniadau Ysgolion 2019/20 i'w hystyried | Nodwyd a derbyniwyd y newidiadau arfaethedig. Dilynodd y drafodaeth o ran y trefniadau derbyn i ysgolion a gynorthwyir lle nodwyd rhai gwallau. Bydd MM yn cysylltu â'r ysgolion hyn yn fuan i ofyn am eu polisi ar gyfer 2019/20 fel y gellir ei gyhoeddi yn y canllaw. AR – Cynghorwyd Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir o fis Ionawr 2019. Cynigiodd LL gefnogaeth y tîm derbyn i gynorthwyo ysgolion i sicrhau bod eu meini prawf yn gyfreithlon. | MM / SM |
| 8 | Trefniadau Derbyn wedi'u Cydlynu ar gyfer 2019/20 i'w hystyried | Amlinellodd LL y cynnig i'r tîm derbyn ymgymryd â gweinyddu'r broses derbyn i'r dosbarth derbyn 2019/20 ar sail prawf ar gyfer ysgolion a gynorthwyir er mwyn ystyried manteision a diffygion trefniadau cydlynol. Bydd MM yn cysylltu â phob ysgol gynradd a gynorthwyir yn fuan i ofyn am gadarnhad o'i phenderfyniad gyda'r bwriad o wneud trefniadau ar gyfer derbyniadau Medi 2019. | MM / SM |
| 9 | Diweddariad Trefniadaeth Ysgolion | Cydaddysg yn y Barri – mae'n mynd rhagddo'n dda ac yn gyflym. Mae'r ddwy ysgol yn y camau olaf o'r trefniadau angenrheidiol er mwyn agor yn llwyddiannus ym mis Medi.<br><br>Cyflwyniad RhAS llwyddiannus Band B o Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd angen ymrwymiad sylweddol i sicrhau'r prosiectau a nodwyd, trwy gymeradwyaeth LlC o achosion busnes priodol yn ogystal â mynd ati i gynnal ymgyngoriadau cyhoeddus. Mae tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei sefydlu i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'r prosiectau cyntaf, Coed ac estyniad i ysgol Bro Morgannwg wedi hen ddechrau. Mae'r ymgynghoriad i drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad newydd yn mynd rhagddo.<br><br>Trafodwyd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) er mwyn ariannu RHAI prosiectau. Bydd y Fro yn ystyried hyn tuag at ddiwedd Band B. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dywedodd AR fod Merthyr a Thorfaen eisoes yn ystyried MBC ar gyfer cynigion enwadol. | |
| 10 | Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cytunwyd ar 16 Tachwedd 2018. Gofynnodd y Cynghorydd Penrose i ni ystyried cynnal y cyfarfod yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr a diolchodd hefyd i CK am ei lletygarwch heddiw. | MM / SM |